# YR ADRAN ADDYSG A PHLANT

***Ein Gweledigaeth .....Cymuned yw Sir Gaerfyrddin lle mae plant yn ddiogel ac yn cael eu meithrin, a lle rhoddir cefnogaeth i ddysgwyr o bob oed gyflawni eu potensial addysgol llawn***

## Ymgynghoriad ynghylch y bwriad i newid ystod oedran Ysgol y Bynea o 4-11 i 3-11.

## DOGFEN YMGYNGHORI

**Robert Sully**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**

**10fed Rhagfyr 2015**

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Diogelu Plant a Gwella Safonau Addysg i Bawb

**Yr Adain Moderneiddio Ysgolion**

**Simon Davies, Rheolwr Moderneiddio Ysgolion (rhif ffôn 01267 246471)**

**Statws y Ddogfen : terfynol**

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant
01267 246474.


## Rhagair

Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgol a hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisïau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen am ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir o ran cost ac ansawdd, a hynny yn y modd mwyaf diwastraff ac effeithiol. Yn ein hymgyrch i wella'n barhaus y gwasanaethau sydd ar gael i bob dysgwr, mae'n ofynnol ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor, ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phawb sydd â chyfraniad i'w wneud i'r broses o ddysgu a gofalu am les plant a'u teuluoedd. Bydd angen i ysgolion y dyfodol weithredu fel canolbwynt ar gyfer ystod eang o wasanaethau a drefnwyd yn bwrpasol i fodloni anghenion y gymuned mewn modd cydgysylltiedig.

Yn ffodus iawn mae gan Sir Gaerfyrddin nifer fawr o athrawon dawnus, ond mae'r newidiadau parhaus a wneir i'r cwricwlwm yn rhoi pwysau mawr ar eu sgiliau i fodloni galwadau hynod amrywiol pob plentyn. Er mor bwysig yw'r prosesau dysgu a'r sgiliau addysgu, mae'n hanfodol bod gan athrawon wybodaeth drylwyr am bynciau os yw dysgwyr, â'u hamrywiol ddoniau mewn gwahanol feysydd, i ddarganfod a datblygu eu galluoedd hyd yr eithaf.

Mae disgwyl i'r ysgolion hynny a ddyluniwyd i fodloni galwadau presennol ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddulliau addysgu sy'n ysbrydoledig ac o safon uchel. Wrth gynllunio darpariaeth newydd bydd yn bwysig sicrhau bod ein hysgolion yn cynnwys yr offer priodol i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol, datblygu cynaliadwy, cyfleoedd cyfartal a dwyieithrwydd. Yn ymarferol, felly, mae gofyn i ni sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu patrymau newidiol y boblogaeth a bod ysgolion wedi'u lleoli yn y mannau iawn ac yn meddu ar adeiladau a chyfleusterau sy'n addas i wasanaethu anghenion pob dysgwr yn yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd y broses ymgynghori yn dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys partïon penodol sydd â diddordeb. Bwriedir i'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon egluro'r cynigion ar gyfer eich ysgol chi a chynorthwyo'r broses ymgynghori.



**Robert A Sully**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**

# Cynnwys


| Rhif | Y pwnc | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Y Cefndir | 5 |
| 3. | Beth ydym ni'n ceisio'i gyflawni? | 7 |
| 4. | Gwybodaeth Gyffredinol ynghylch Ysgolion (Ysgolion Cyfagos) | 8 |
| 5. | Ysgol y Bynea | 10 |
| 6. | Y Broses Statudol | 15 |
| 7. | Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned | 18 |
| 8. | Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 20 |
| 9. | Atodiad C - Dechrau'n Deg | 25 |
| 10. | Atodiad D - Proffil o'r Ardal | 28 |
| 11. | Atodiad E – Profforma Ymateb | 30 |

# 1. Cyflwyniad

Cyfrifoldeb cyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin yw i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn yr ardal ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i gyflwyno'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Fel rhan o'r broses hon mae'r Cyngor Sir wedi cyhoeddi ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran holl ysgolion cynradd y Sir, ac mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar y trefniadau addysg yn Ysgol y Bynea yn y dyfodol. Mae'r cynigion ar gyfer newid a geir yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r amcan tymor hir hwnnw.

Nod y ddogfen hon yw rhoi hwb i'r broses ymgynghori drwy egluro'r dewis a ffafrir gan yr Awdurdod ar gyfer darparu addysg gynradd yn y dyfodol i ddisgyblion Ysgol y Bynea.

Mae'n rhoi cyfle i'r ymgyngoreion gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau neu gynigion eraill yr hoffent iddynt gael eu hystyried.

Bydd y broses ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys partïon penodol sydd â diddordeb.

Prif ddiben y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth a chasglu sylwadau'r partïon penodol sydd â diddordeb. Efallai y carech ddefnyddio'r profforma ymateb a geir yn **Atodiad E** ar dudalen 30 y ddogfen hon i gyflwyno'ch ymateb neu anfon neges e-bost at: **aaprma@sirgar.gov.uk**

## 1.1 Y Broses Ymgynghori

Rhoddir amlinelliad manwl o'r broses ymgynghori yn adran 6 o'r ddogfen ymgynghori hon. Bydd yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig hwn yn dilyn canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 1.2 Â phwy arall y byddwn ni'n ymgynghori?

Anfonwyd y ddogfen hon at y partïon canlynol sydd â diddordeb, sef:

| | |
|---|---|
| Staff (Athrawon a Staff Ategol)<br>Ysgol y Bynea | Llywodraethwyr a Rhieni,<br>Ysgol y Bynea |
| Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin<br>Gofal Plant / Blynyddoedd Cynnar**<br>Partneriaeth Plant yn Gyntaf | Cynghorwyr Cymuned<br>Cyngor Gwledig Llanelli<br>Cyngor Tref Llanelli |
| Cynghorwyr Cyngor Sir Lleol | Comisiynydd y Gymraeg |
| Yr Aelod Cynulliad (AC)<br>Yr Aelod Cynulliad Rhanbarthol | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon (PAT) |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | Undeb y GMB |
| UNSAIN | *Yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos yn Sir Gaerfyrddin |

| | |
|---|---|
| Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (T&G) | Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol |
| Cyfarwyddwr Addysg - yr holl Awdurdodau Cyfagos | ERW – Ein Rhanbarth ar Waith |
| Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol | Y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | Gweinidogion Cymru |
| Estyn | Y Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol |
| Dechrau'n Deg | |

*Dogfen ymgynghori wedi'i hanfon at y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr (Brynsierfel, Bryn Teg, Ysgol Fabanod Llangennech, Ysgol Iau Llangennech)
**Fe fydd Mudiad Ysgolion Meithrin ac unrhyw meithrinfeydd prefat arall yn yr ardal yn cael y gwybodaeth drwy yr adain Gofal Plant / Blynyddoedd Cynnar o'r Adran Addysg a Phlant.

### 1.3 Y Cyfnod Ymgynghori

Bydd modd ichi fynegi barn rhwng 7fed Rhagfyr 2016 ac 29ain Ionawr 2016.

Gallwch fynegi barn trwy ysgrifennu llythyr neu drwy lenwi'r ffurflen ymateb a geir yn **Atodiad E**, a ddylai gyrraedd yr Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu drwy anfon e-bost at: **aaprma@sirgar.gov.uk** erbyn canol dydd ar 29ain Ionawr 2016 fan hwyraf

## 2. Y Cefndir

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn, a bodloni dyheadau Llywodraeth Cymru a fynegwyd yn ei dogfennau strategol e.e. *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg*

Mae darparu addysg o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar yn allweddol er mwyn gwireddu'r uchelgais hon.

Yn Ysgol y Bynea mae rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru yn darparu gofal plant o ansawdd ar gyfer plant 2-3 oed.

Ar hyn o bryd, ystod oedran yr ysgol yw 4-11. Mae hyn yn arwain at fwlch yn y ddarpariaeth addysg yn yr ysgol ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed. Ym marn y Cyngor Sir, y dull a ffefrir o ran darparu addysg blynyddoedd cynnar yw bod disgyblion yn pontio'n ddi-dor trwy raglen Dechrau'n Deg i'r ysgol yn dair oed.

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg, **Atodiad C**, yn un o gynlluniau Llywodraeth Cymru sy'n darparu ystod o wasanaethau cymorth ar gyfer teuluoedd sydd â phlant 0-3 oed sy'n byw mewn ardaloedd penodol yn Sir Gaerfyrddin.

Mae darparu gofal plant o ansawdd da ar gyfer plant 2-3 oed wrth wraidd y gwasanaeth. Mae Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar blant sy'n byw mewn cymunedau dan anfantais a'i nod yw gwella eu deilliannau i baratoi ar gyfer yr ysgol a dysgu gydol oes.

Mae'n comisiynu gofal plant a leolir mewn nifer o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Ysgol y Bynea.

Ar hyn o bryd, ystod oedran **Ysgol y Bynea** yw 4-11. Mae hyn yn her i'r Cyngor Sir gan fod plant yn gallu elwa ar ymyriadau trwy raglen Dechrau'n Deg y Bynea nes eu bod yn dair oed ond mae her o ran darparu addysg briodol am bron i flwyddyn nes y cânt eu derbyn i'r ysgol. Un o fanteision lleoliad rhaglen Dechrau'n Deg ar safle'r ysgol yw hwyluso pontio effeithiol a mynediad i'r ysgol. Felly, er mwyn sicrhau dilyniant parhaus i'r ysgol gynradd ar gyfer y dysgwyr hyn, mae'r Cyngor Sir yn bwriadu darparu addysg y blynyddoedd cynnar yn yr ysgol hon. Wedyn, byddai'r plant yn elwa ar ymyriadau trwy'r rhaglen Dechrau'n Deg nes eu bod yn derbyn addysg mewn dosbarth blynyddoedd cynnar a gynhelir yn yr ysgol. Ymgynghorwyd â Phennaeth a Chorff Llywodraethu'r ysgol ynghylch y trefniadau newydd ac maent yn eu llwyr gefnogi.

O dan Gôd Statudol Trefniadaeth Ysgolion 2013 mae newid a reoleiddir, megis newid ystod oedran ysgol gan flwyddyn neu ragor yn galw am gyhoeddi cynnig i ffurfioli'r trefniadau. Felly, mae'n ofynnol bod y Cyngor Sir yn cwblhau proses ymgynghori statudol a fydd, o'i chymeradwyo, yn dechrau yn Nhymor yr Hydref 2015.

## Y Sefyllfa Bresennol yn Sir Gaerfyrddin

Cynigir darpariaeth blynyddoedd cynnar benodedig mewn ***33 o ysgolion*** yn y Cyngor Sir.

| **Ysgol** | **Ystod Oedran** |
|---|---|
| Ysgol Bigyn | 3–11 oed |
| Ysgol Bro Brynach | 3–11 oed |
| Ysgol y Bryn | 3–11 oed |
| Ysgol Bryn Teg | 3–11 oed |
| Ysgol Brynaman | 3–11 oed |
| Ysgol Brynsierfel | 3–11 oed |
| Ysgol Porth Tywyn | 3–11 oed |
| Ysgol y Bynea | 3–11 oed |
| Ysgol Copperworks | 3–7 oed |
| Ysgol Cross Hands | 3–11 oed |
| Ysgol Dafen | 3–11 oed |
| Ysgol Dewi Sant | 3–11 oed |
| Ysgol Ffwrnes | 3–11 oed |
| Ysgol Griffith Jones | 3–11 oed |
| Ysgol Gwenllian | 3–11 oed |
| Ysgol Halfway | 3–11 oed |
| Ysgol Tre Ioan | 3–11 oed |
| Ysgol Llan-gain | 3–11 oed |
| Ysgol Llangynnwr | 3–11 oed |
| Ysgol Maes y Morfa | 3–11 oed |
| Ysgol Model | 3–11 oed |
| Ysgol Myrddin | 3–11 oed |
| Ysgol Nantgaredig | 3–11 oed |
| Ysgol Pen-y-gaer | 3–11 oed |
| Ysgol Parc Waun-dew | 3–11 oed |
| Ysgol y Santes Fair, Llanelli | 3–11 oed |
| Ysgol y Santes Fair, | 3–11 oed |

| | |
|---|---|
| Caerfyrddin | |
| Ysgol Stebonheath | 3–11 oed |
| Ysgol Teilo Sant | 3–11 oed |
| Ysgol Trimsaran | 3–11 oed |
| Ysgol y Bedol | 3–11 oed |
| Ysgol y Castell | 3–11 oed |
| Ysgol y Dderwen | 3–11 oed |

Mae Ysgol Feithrin Rhydaman yn darparu ar gyfer Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman.

- Mae ***67 o ysgolion*** yn Sir Gaerfyrddin lle nad oes darpariaeth blynyddoedd cynnar benodedig.
- Cynigir darpariaeth ddysgu Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar yn Sir Gaerfyrddin mewn **47 o leoliadau nas cynhelir**.

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol y Bynea yn ffurfiol o 4-11 oed i 3-11 oed cyn gynted â phosibl, er mwyn gallu cynnig darpariaeth feithrin.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor Sir i edrych ar nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn Sir Gaerfyrddin, ac mae'n ofynnol iddo sicrhau eu bod yn cael eu lleoli yn y man iawn a bod ganddynt y cyfleusterau iawn ar gyfer y dyfodol a'r adnoddau iawn i ddarparu addysg a dysgu i ddisgyblion. Rydym o'r farn fod ein disgyblion a'n staff yn llawn haeddu hyn.

Hefyd mae newidiadau i'r cwricwlwm ac i'r ffordd y caiff plant eu haddysgu yn y dyfodol yn golygu bod yn rhaid inni ofyn a yw'n bosibl adolygu ystod oedran ein hysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion yn y dyfodol.

## 3. Beth ydym ni'n ceisio'i gyflawni ?

Rydym yn ceisio sicrhau pontio di-dor trwy raglen Dechrau'n Deg yn 2-3 oed i'r ddarpariaeth ysgol ran-amser yn 3 oed. Nid oes darpariaeth feithrin ddynodedig yn Ysgol y Bynea ar hyn o bryd.

Cylch Meithrin a meithrinfeydd preifat sy'n cynnig darpariaeth feithrin i'r gymuned. Er bod ansawdd y ddarpariaeth yn dda iawn, mae cyflwyno'r cyfnod sylfaen addysg yn golygu bod angen dull mwy integredig o addysgu plant ifanc.

Bydd darparu addysg mewn ysgol gynradd 3-11 oed yn caniatáu i blant ifanc yr ardal gamu ymlaen yn hwylus o'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg i ddarpariaeth feithrin ac ymlaen i'r cyfnod sylfaen. Byddai'n rhoi sylw i'r her bresennol sy'n wynebu'r Cyngor Sir sef pontio'r "bwlch" gan fod plant yn elwa o ymyriadau rhaglen Dechrau'n Deg nes eu bod yn dair oed ond maent heb ddarpariaeth am bron i flwyddyn nes iddynt gael eu derbyn i'r ysgol.

Byddai'r manteision yn sgil y pontio hwn yn sicrhau parhad a dilyniant di-dor o'r ddarpariaeth feithrin i'r ysgol gynradd ac o'r ysgol gynradd i addysg uwchradd. Mae'n hysbys fod dileu camau trosglwyddo yn cynnig manteision addysgol i blant.

Mae Ysgol y Bynea mewn ardal Dechrau'n Deg sy'n cynnig darpariaeth ofal ddi-dâl i blant dwy a thair oed cyn iddynt dderbyn y ddarpariaeth ddysgu ran-amser y mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir ei darparu ar gyfer pob plentyn o ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd.

## Y Casgliad

I gefnogi pontio di-dor i ddisgyblion o raglen Dechrau'n Deg i'r ysgol, ystyrir ei bod yn hanfodol fod y Cyngor Sir yn mynd ati i ymestyn ystod oedran Ysgol y Bynea o 4-11 oed i 3-11 gan wneud hynny mor fuan â phosibl drwy roi gweithdrefnau statudol ffurfiol ar waith.

## Y Cynnig

**"Newid ystod oedran Ysgol y Bynea o 4-11 i 3-11 cyn gynted â phosibl"**

# 4. Gwybodaeth Gyffredinol ynghylch Ysgolion (ysgolion cyfagos)

## 4.1 Yr ysgolion / darparwyr meithrin y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt

Mae dalgylch Ysgol y Bynea wedi'i amgylchynu gan yr ysgolion cynradd cymunedol canlynol:

Ysgol Gymraeg Brynsierfel, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Bryn Teg, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Fabanod Llangennech, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Iau Llangennech, Sir Gaerfyrddin

| Enw'r Ysgol | Y Math o Ysgol | Categori Iaith | Nifer derbyn | Nifer y lleoedd (ym Medi 2014-15) | Nifer CYBLD Ion 2015 Cyfanswm (CALI) | Ystod Oedran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol y Bynea** (heb gynnwys y Ganolfan Ddysgu) | **Cynradd Cymunedol** | **EM** | **23** | **167** | **131** | **4 - 11** |
| **Ysgol Brynsierfel** | **Cynradd Cymunedol** | **WM** | **30** | **240** (yn cynnwys y Meithrin) | **201.5** (yn cynnwys y Meithrin) | **3 - 11** |
| **Bryn Teg** | **Cynradd Cymunedol** | **EM** | **30** | **240** (yn cynnwys y Meithrin) | **255** (yn cynnwys y Meithrin) | **3 - 11** |
| **Ysgol Fabanod Llangennech** | **Cynradd Cymunedol** | **DFf** | **55** | **210** | **216** | **4 - 7** |
| **Ysgol Iau Llangennech** | **Cynradd Cymunedol** | **DFf** | **60** | **240** | **230** | **7 - 11** |

## 4.2 Nifer y Disgyblion mewn Addysg Amser Llawn (CALl) (yn cynnwys y Meithrin) (Ysgolion Cyfagos)


Mae'r tabl a'r graff isod yn dangos nifer y disgyblion mewn addysg amser llawn (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion CYBLD 2015) yn Ysgol y Bynea, Ysgol Gymraeg Brynsierfel, Ysgol Bryn Teg, Ysgol Fabanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yn Ionawr 2015 a rhagamcanion o'r niferoedd am y pum mlynedd nesaf.

| Ysgol | Cyfanswm y disgyblion (CALl) 2015 (yn cynnwys y Meithrin) | Cyfanswm y disgyblion (CALl) 2016 (yn cynnwys y Meithrin) | Cyfanswm y disgyblion (CALl) 2017 (yn cynnwys y Meithrin) | Cyfanswm y disgyblion (CALl) 2018 (yn cynnwys y Meithrin) | Cyfanswm y disgyblion (CALl) 2019 (yn cynnwys y Meithrin) | Cyfanswm y disgyblion (CALl) 2020 (yn cynnwys y Meithrin) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol y Bynea (heb gynnwys y Ganolfan Ddysgu) | 131 | 138 | 143 | 140 | 137 | 138 |
| Ysgol Brynsierfel | 201.5 | 260 | 259 | 261 | 255 | 253 |
| Bryn Teg | 255 | 203.5 | 206.5 | 211.5 | 214.5 | 211.5 |
| Ysgol Fabanod Llangennech | 216 | 212 | 209 | 207 | 205 | 204 |
| Ysgol Iau Llangennech | 230 | 243 | 249 | 253 | 241 | 235 |

## 4.3 Darparwyr Meithrin - (o fewn cwmpas milltir i Ysgol y Bynea)

| Math | Enw'r Darparwr | Dechra u'n Deg | Preifat / Awdurdod Lleol/ Gwirfoddol | Nifer y lleoedd cofrestredig | Wedi cofrestru ag AGGCC (Ebrill 15) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cylch Meithrin | Ysgol y Bynea | Ie | Awdurdod Lleol | 7 | 7 |
| Cylch Meithrin | Canolfan Blant Integredig Llwynhendy | Ie | Awdurdod Lleol | 24 | 24 |
| Clwb Ar Ôl Ysgol | Ysgol Bryn Teg | Nage | Awdurdod Lleol | 16 | Llai na 2 awr CYCA |
| Clwb Ar Ôl Ysgol | Ysgol St Michael | Nage | Preifat | 18 | - |

**<u>Mae'r diagram canlynol yn nodi dalgylchoedd yr ysgolion cyfagos</u>**



# 5. Ysgol y Bynea.

## 5.1 Rhagamcanion Disgyblion

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm gwirioneddol y disgyblion a'r rhagamcanion o ran nifer y disgyblion ar gyfer Ysgol y Bynea yn ystod y pum mlynedd nesaf.


| | Gwirioneddol | **Cyfanswm Rhagamcanion Disgyblion (CALI)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ion 2015 | | Ion 2016 | Ion 2017 | Ion 2018 | Ion 2019 | Ion 2020 |
| **Ysgol y Bynea** | **131** | | **138** | **143** | **140** | **137** | **138** |

## 5.2 Nifer y Disgyblion

### 5.2.1 Tueddiadau Cyfredol

Mae'r tabl a'r graff canlynol yn dangos niferoedd y disgyblion ar gyfer Ionawr 2015 a'r chwe blynedd flaenorol. Gellir gweld o'r wybodaeth hon bod cynnydd wedi bod yn nifer y disgyblion.

| **Ysgol y Bynea** | **2oed (LIA)** | **3oed (RhA)** | **3oed (LIA)** | **4oed (RhA)** | **4oed (LIA)** | **5oed** | **6oed** | **7oed** | **8oed** | **9oed** | **10oed** | **11oed** | **Cyfanswm (disgyblion)** | **Cyfanswm (CALI)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 15 | 3 | 0 | 19 | 0 | 12 | 16 | 17 | 20 | 20 | 13 | 11 | 0 | 131 | 131 |
| Ion 14 | 2.5 | 0 | 10 | 0 | 16 | 13 | 11 | 17 | 11 | 10 | 14 | 0 | 105 | 104.5 |
| Ion 13 | 0 | 2 | 11 | 1 | 9 | 8 | 10 | 8 | 7 | 13 | 7 | 0 | 76 | 74.5 |
| Ion 12 | 6 | 0 | 9 | 0 | 8 | 8 | 8 | 8 | 12 | 6 | 11 | 0 | 76 | 76 |
| Ion-11 | 2 | 0 | 7 | 0 | 5 | 7 | 9 | 10 | 6 | 14 | 19 | 0 | 79 | 79 |
| Ion 10 | 0 | 0 | 3 | 0 | 9 | 9 | 11 | 8 | 15 | 10 | 12 | 9 | 96 | 96 |
| Ion-09 | 0 | 1 | 6 | 0 | 7 | 10 | 6 | 14 | 22 | 12 | 14 | 9 | 100 | 100.5 |



## 5.3 Gwybodaeth am Nifer y Lleoedd ar gyfer Disgyblion

Newidiwyd y dull o gyfrif lleoedd ysgol yn 2006 yn sgil gweithredu canllawiau newydd Cynulliad Cymru,"Mesur Capasiti yn Ysgolion Cymru" (MCSW) a weithredwyd gan y Cyngor Sir yn 2008.  Y dull Cyfrif Cofrestru Mwy Agored (MOE) a ddefnyddid cyn 2008.  Dangosir y lleoedd dros ben yn Ysgol y Bynea yn y tabl canlynol.

| | **Cyfanswm Disgyblion Gwirioneddol (CALI*) Ion 2015** | **Ysgol y Bynea ( -  Rhagamcanion – Cyfanswm Disgyblion (CALI*)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ion 2015** | | **Ion 2016** | **Ion 2017** | **Ion 2018** | **Ion 2019** | **Ion 2020** |
| **Rhagamcanion o gyfanswm y niferoedd** (heb gynnwys y Ganolfan Ddysgu) | **131** | | **138** | **143** | **140** | **137** | **138** |
| **Nifer y lleoedd** | **164** | | **164** | **164** | **164** | **164** | **164** |
| **Lleoedd gwag** | **33** | | **26** | **21** | **24** | **27** | **26** |

Mae lle yn Ysgol y Bynea ar gyfer 23 o ddisgyblion meithrin (CALI) a disgyblion a ragamcanir. Mae'r tabl uchod yn rhoi dadansoddiad o oblygiadau cynnwys disgyblion meithrin yn yr ysgol.

## 5.4 Ansawdd a safon yr addysg

Cynhaliwyd yr arolwg Estyn diweddaraf yn Ysgol y Bynea rhwng 17/05/10 a 19/05/10.

Mae Ysgol Gynradd y Bynea wedi ei lleoli ym mhentref Bynea rhyw dair milltir i'r dwyrain o dref Llanelli. Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar safle eang, dymunol yng nghanol y pentref. Mae'n gwasanaethu'r gymuned leol a'r ardal o amgylch ac yn disgrifio sefyllfaoedd cymdeithasol ac economaidd y disgyblion sydd yn ei mynychu fel rhai cymharol ddifreintiedig. Mae canran y disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn 41%, ffigur sydd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y Cyngor Sir sydd tua 15% a'r cyfartaledd cenedlaethol o ryw 18%.

Mae'r ysgol wedi ennill Marc Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am y pedwerydd tro, achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl, gwobr efydd Eco-Sgolion a phedair deilen menter Ysgolion Iach.

Mae’r raddfa bum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli pob dyfarniad arolygu fel a ganlyn:
**Gradd 1** – da gyda nodweddion rhagorol
**Gradd 2** – nodweddion da, heb ddiffygion pwysig
**Gradd 3** – nodweddion da yn gorbwyso diffygion
**Gradd 4** - rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
**Gradd 5** – llawer o ddiffygion pwysig

Mae Ysgol y Bynea yn ysgol dda gyda rhai nodweddion rhagorol. Mae'n gymuned glós a gofalgar gydag ethos cynnes a chroesawgar lle caiff yr holl ddisgyblion eu gwerthfawrogi. Mae'r arweinyddiaeth gref, yr ethos o weithio fel tîm a'r perthnasoedd

rhagorol ar draws yr ysgol i gyd yn cyfrannu at ansawdd bywyd yn yr ysgol a'r safonau da a gyflawnir.

**Tabl y graddau a ddyfarnwyd**

| Tabl y graddau a ddyfarnwyd - Cwestiwn Allweddol | Gradd Arolygu | Safonau |
|---|---|---|
| 1. Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | Gradd 2 | **Nodweddion da a dim diffygion pwysig** |
| 2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | Gradd 2 | **Nodweddion da a dim diffygion pwysig** |
| 3. Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | Gradd 1 | **Da gyda nodweddion rhagorol** |
| 4. Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | Gradd 1 | **Da gyda nodweddion rhagorol** |
| 5. Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | Gradd 2 | **Nodweddion da a dim diffygion pwysig** |
| 6. Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | Gradd 2 | **Nodweddion da a dim diffygion pwysig** |
| 7. Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | Gradd 2 | **Nodweddion da a dim diffygion pwysig** |

**Dyma'r graddau safon ar gyfer y pynciau a arolygwyd:**

| Y pwnc | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Gwyddoniaeth | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu) | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Dylunio a Thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg Gorfforol | Gradd 3 | Gradd 2 |

Effaith fwyaf tebygol y cynnig i integreiddio darpariaeth feithrin yn Ysgol y Bynea ar yr ansawdd a nodwyd yn adroddiad Estyn fyddai gwella'r profiad a'r amgylchedd

dysgu a darparu cyfnod sylfaen mwy cydlynol ar gyfer y dysgwyr ifanc. Gwneid hyn trwy ddileu cam pontio rhwng y ddarpariaeth feithrin a derbyn, a thrwy'r parhad o ran staffio a throsglwyddo data ynghylch disgyblion unigol, yn enwedig o ran addysgu disgyblion 3–11 oed, gofalu amdanynt a chynnig cymorth iddynt ac o ran darparu'r cyfleoedd dysgu mewn ysgol gynradd sengl 3-11 oed fel sy'n digwydd mewn ysgolion cyfagos eraill yn Sir Gaerfyrddin.

Byddai'r ffactorau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r plant.

## 5.5 Safonau'r Ysgol

### Y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion

Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Medi 2014 y byddai System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yn cael ei chyflwyno. Nid system sy'n llwyr seiliedig ar ddata yw'r system newydd. Mae'r arweinyddiaeth, yr addysgu a'r dysgu yn ein hysgolion hefyd yn cael eu hystyried. Ni fydd y system yn disodli adroddiadau Estyn. Bydd Estyn yn parhau i arolygu ysgolion ac yn archwilio o'r tu allan y system genedlaethol ar gyfer categoreidido ysgolion fel rhan o'i harolygiadau.

Mae'r system newydd yn gwerthuso ac yn asesu ysgolion ac yn eu rhoi mewn categori o ran cefnogaeth ar sail y wybodaeth ganlynol:

- Ystod o fesuriadau perfformiad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Hunanwerthusiadau cadarn gan yr ysgol ar ei chapasiti i wella o ran arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu.
- Asesiadau o ddulliau hunanwerthuso'r ysgol gan gynghorwyr her yn y consortia rhanbarthol, a gymeradwyir gan y Cyngor Sir.

Bydd y system gategoreiddio newydd yn rhoi darlun clir a theg o gynnydd yr ysgol. Mae pennu categori ysgol yn broses dri cham. Yn gyntaf, ar ôl i'r data ynghylch perfformiad a'r hunanwerthuso gael eu dadansoddi caiff categori drafft o ran cefnogaeth ei bennu ar gyfer pob ysgol. Caiff y categori hwn ei drafod â'r ysgol yn ôl consortia rhanbarthol ac yna caiff ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r data ar gyfer Ysgol Gynradd y Bynea;

**System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion – Data 2014**

| Ysgol | Grŵp Safonau | Capasiti i Wella | Categori Cefnogaeth |
|---|---|---|---|
| Y Bynea | 3 | B | Melyn |

Dengys y tabl uchod fod Ysgol y Bynea yn y categori Melyn. Nodir ei bod yn ysgol effeithiol sy'n gwneud yn dda ac yn ymwybodol o'r meysydd y mae angen eu gwella.

## 5.6 Costau fesul Disgybl

Ar sail data 2015/16 y gost gyllidebol fesul disgybl yw £3,713 yn Ysgol y Bynea, sy'n uwch na chyfartaledd y sir sef £3,739.

## 5.7 Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Cyllidir Ysgol y Bynea yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir, a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, ar sail nifer disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

## 5.8 Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol y Bynea.
23 yw nifer derbyn presennol yr ysgol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch derbyn i'r ysgol mae manylion cyswllt Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

Yr Uned Llywodraethu a Derbyn i Ysgolion,
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin,
Yr Adran Addysg a Phlant,
Bloc 2,
Y Prif Adeilad,
Parc Dewi Sant
Caerfyrddin. SA31 3HB

Rhif Ffôn: 01267 246449
Rhif Ffacs: 01267 246746
E-bost: rjonesevans@sirgar.gov.uk

## 5.9 Cyfleusterau o ran Adeiladau

Nodwyd yn adroddiad arolygu Estyn a gynhaliwyd ym Mai 2010 fod Ysgol y Bynea wedi ei lleoli ar safle eang a dymunol iawn gyda pherthi, caeau, perllan, dosbarth tu allan wedi ei orchuddio i'r Cyfnod Sylfaen a thri buarth gydag arwynebedd caled.

Bloc 1 - adeilad unllawr traddodiadol o frics ag iddo do ar oledd a thoeon gwastad lle mae ystafelloedd dysgu, prif neuadd a chegin yr ysgol ynghyd â thoiledau.

Bloc 2 - Estyniad unllawr o frics ger Bloc 1 ag iddo doeon ar oledd lle mae prif fynedfa'r ysgol a'r dderbynfa, swyddfeydd staff, mannau dysgu a thoiledau. Pennir bod un o'r ystafelloedd dosbarth yn ystafell gymunedol sydd, felly, ar gael i'w llogi'n breifat.

Mae'r adeiladau mewn cyflwr da ac yn lân iawn. Cysylltwyd yr adeilad hŷn a'r un newydd yn ofalus gan ddarparu lle addas. Mae maint yr ystafelloedd dosbarth yn briodol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr.

Caiff gwaith y disgyblion ei arddangos yn ddychmygus gan greu amgylchedd addysgol ysgogol.

Fel rhan o **Raglen Genedlaethol Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif** o'r holl ysgolion yng Nghymru, ar ran y Cyngor Sir, sgoriodd Ysgol y Bynea fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Cyflwr Cyffredinol: | A | Da |
| Addasrwydd: | B | Rhesymol |

## 5.10 Cludiant

Gwneir y trefniadau cludiant yn unol â pholisi'r Cyngor o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol. Ni fydd dim newidiadau yn yr amserau teithio i blant sy'n byw yn y dalgylch.

## 5.11 Dalgylch yr Ysgol

Bydd Ysgol y Bynea yn parhau ar ei safle presennol ac felly bydd y dalgylch dynodedig yn seiliedig ar ddalgylch yr ysgol bresennol.

## 5.12 Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd dim newidiadau yn y trefniadau presennol o ran trosglwyddo disgyblion i addysg Uwchradd.

## 5.13 Anghenion Arbennig

Ni fydd dim newidiadau yn y ddarpariaeth bresennol a gynigir i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.

# 6. Y Broses Statudol

## 6.1 Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ar 7fed Rhagfyr 2015 ac yn dod i ben ar 29ain Ionawr 2016. Yn ystod y cyfnod hwn gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr neu lenwi'r ffurflen ymateb amgaeedig yn **Atodiad E**. Dylid anfon llythyrau a ffurflenni ymateb i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu drwy anfon e-bost at:
aaprma@sirgar.gov.uk erbyn canol dydd ar 29ain Ionawr 2016 fan hwyraf.

Gall ymgyngoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn y cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgyngoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno isod.

## 6.2 Ystyried eich Sylwadau

O fewn 13 wythnos ar ôl 29ain Ionawr 2016 bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Hefyd bydd copïau papur o'r adroddiad ar

gael drwy wneud cais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn am y cynnig.

Bydd Cyngor llawn Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os yw Cyngor llawn Cyngor Sir Caerfyrddin yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

## 6.3 Hysbysiad Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i arddangos yn yr ysgol a enwyd a'r rhai cyfagos ac yn yr ardal. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, ac aelodau staff (gall yr ysgol hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig o fewn cyfnod o 28 diwrnod.

## 6.4 Penderfynu ynghylch y Cynnig

Cyngor llawn Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ynghylch y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Bwrdd Gweithredol yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

## 6.5 Rhoi gwybod am y penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynnig rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

## 6.6 Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses statudol a'r amserlen fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Dosbarthu'r ddogfen ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb. |
| Ionawr 2016 | Y dyddiad cau ar gyfer derbyn barn ar y cynnig yn yr Adran Addysg a Phlant. |
| Mawrth 2016 | O fewn 13 wythnos ar ôl 29ain Ionawr 2016 bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei roi gerbron y Cyngor Sir a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.<br>Penderfynu mynd rhagddo i gyhoeddi'r hysbysiad statudol NEU fod y cynnig yn dod i ben<br>Os penderfynir mynd ymlaen yna bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol ac ysgolion cyfagos y mae'r cynnig yn berthnasol iddynt. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i rieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff.<br><br>Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.<br><br>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig. |
| Ebrill 2016 | Diwedd y cyfnod statudol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau.<br>Bydd y Cyngor Sir yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau a ddaeth i law.<br><br>Y dyddiad cau ar gyfer hysbysu'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith. |
| Medi 2016 | Ar ôl penderfynu ynghylch y cynnig rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |

# 7. Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

**Ysgol Y Bynea - Gwybodaeth Gyffredinol**

Mae Ysgol Gynradd y Bynea wedi ei lleoli ym mhentref Bynea rhyw dair milltir i'r dwyrain o dref Llanelli. Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar safle eang, dymunol yng nghanol y pentref. Mae'n gwasanaethu'r gymuned leol a'r ardal o amgylch ac yn disgrifio sefyllfaoedd cymdeithasol ac economaidd y disgyblion sydd yn ei mynychu fel cymharol ddifreintiedig. Mae canran y disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn 41%, ffigur sydd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y Cyngor Sir sydd tua 15% a'r cyfartaledd cenedlaethol o ryw 18%.

Darpara'r ysgol addysg ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 oed, ond mae lle yno ar gyfer dosbarth meithrin i'w gwneud yn ysgol 3-11 oed. Caiff disgyblion eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg gyda'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer plant teithwyr.

Darpara'r ysgol ddewis eithriadol o weithgareddau ar ôl ysgol sydd yn cynnwys clybiau ar gyfer cyfrifiaduron, celf ac amrywiaeth eang o chwaraeon. Ceir darpariaeth dda er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r sgiliau sylfaenol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r ysgol wedi ennill Marc Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am y pedwerydd tro, achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl, gwobr efydd Eco-Sgolion a phedair deilen menter Ysgolion Iach.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni a'r gymuned yn nodwedd ragorol o waith a gweithgareddau'r ysgol. Mae ansawdd cysylltiadau'r ysgol gyda'r gymuned leol yn rhagorol. Gwnaed gwaith rhagorol gan yr ysgol wrth adeiladu perthynas gyda chymuned y teithwyr trwy gynllunio taflen a chyfranogi yng ngwefan y plant ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Ifanc. Mae Ysgol y Bynea yn ysgol hollol gynhwysol a chaiff yr holl ddisgyblion, beth bynnag eu hil, cefndir neu ryw eu trin yn gyfartal a chydag urddas a pharch.

## Dadansoddiad o'r Dalgylch

**Ysgol Leol/Dalgylch**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod bod perthynas bwysig rhwng ysgol a'i chymuned. Felly mae'r Cyngor Sir wedi clustnodi ardal ddaearyddol ddynodedig a wasanaethir gan yr ysgol a gelwir yr ardal honno'n ddalgylch yr ysgol. Mae manylion am ddalgylchoedd ysgolion ar gael yn yr ysgolion ac ar wefan y Cyngor Sir neu gellir eu cael gan yr Awdurdod Derbyn perthnasol.

Er na fydd byw yn nalgylch ysgol yn sicrhau y derbynnir plentyn i'r ysgol honno mae'n ystyriaeth bwysig a rhoddir mwy o flaenoriaeth i'r cais nag i geisiadau gan unigolion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch. Yn ogystal, mae preswylio yn nalgylch penodedig ysgol yn bwysig gan fod hwn yn un o'r meini prawf allweddol o ran asesu a yw plentyn yn gymwys i gael cymorth cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Cyn cyflwyno cais am dderbyn plentyn i ysgol mae'r Cyngor Sir yn argymell eich bod yn cysylltu, yn trafod ac yn ymweld â'ch ysgol leol, os yw'n bosibl, er mwyn cael gwybod pa gyfleusterau a chyfleoedd y gellir eu cynnig yno.

Mae'r mwyafrif o'r rhieni yn anfon eu plentyn i'r ysgol leol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dewis ysgolion eraill.

## Plant sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch

Ar sail data Ionawr 2015 ynghylch cyfeiriadau disgyblion, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol y Bynea yn dangos bod 52 unigolyn o'r 131 o ddisgyblion (CALl) oedd ar gofrestr yr ysgol yn byw yn y dalgylch.

## Plant sy'n mynychu'r ysgol o'r tu allan i'r dalgylch

Ar sail data Ionawr 2015 ynghylch cyfeiriadau disgyblion, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol y Bynea yn dangos bod 79 unigolyn o'r 131 o ddisgyblion (CALl) oedd ar gofrestr yr ysgol yn byw y tu allan i'r dalgylch.

## Y Plant yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill

Ar sail data Ionawr 2015 ynghylch cyfeiriadau disgyblion, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol y Bynea yn dangos 131 o ddisgyblion (CALl) ar gofrestr yr ysgol Roedd cyfanswm o 107 o blant eraill a oedd yn byw yn nalgylch Ysgol y Bynea yn mynd i ysgolion eraill.

## Cyfleusterau / Gweithgareddau yn Ysgol y Bynea

Mae Ysgol y Bynea yn cynnig clwb brecwast i ddisgyblion yn ystod y tymor ysgol rhwng 8am a 9am. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynnig clybiau ar ôl ysgol i ddisgyblion sydd am gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau, o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 3:30pm a 5:30pm.

Mae'r clybiau ar ôl ysgol a'r gweithgareddau (yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn) yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau awyr agored a datblygu hunanhyder ac annibyniaeth.

## Defnydd y gymuned o adeilad Ysgol y Bynea

Nid yw cymuned Ysgol y Bynea yn defnyddio'r cyfleusterau o ran adeiladau'r ysgol.

## Darpariaeth yr Eglwys yng Nghymru

Petai rhieni'n dymuno anfon eu plant i ysgol naws yr Eglwys yng Nghymru, eu hysgol agosaf fyddai Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Pentip yn Llanelli, yn amodol ar ddewis y rhieni.

# 8. Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

**Cyngor Sir Caerfyrddin**
**Asesu Effaith**

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau camwahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd y sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

**Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy wella cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys fel rhan annatod o ddylunio polisïau a chyflwyno gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer pawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau yna gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol gan awdurdodau lleol i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu camwahaniaethu a hybu cydraddoldeb ynghylch hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd y sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau eu cael ar hawliau dynol.

**Dull Sir Gaerfyrddin o Weithredu Effaith ar Gydraddoldeb**
Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn ystyried effaith bosibl ei bolisïau a'i arferion arfaethedig ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen ategu pob cynnig gyda'r Asesiad o Effaith amgaeedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol yna mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

**Adrodd ar asesiadau**
Os yw'n amlwg o'r asesiad bod yr effaith debygol ar allu'r awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, yna bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

## Cyngor Sir Caerfyrddin
## Asesu Effaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Enw Cyswllt | Lowri Morgan | Teitl Miss | | Swyddog Cymorth Prosiectau Datblygu Ysgolion |
| Maes Gwasanaeth | Moderneiddio Ysgolion | Adran | | Addysg a Phlant |

**Enw'r gweithgaredd / cynnig**

Newid ystod oedran Ysgol y Bynea yn gyfreithiol o 4-11 i 3-11 cyn gynted â phosibl

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad o'r cynnig | Polisi | Y Weithdrefn | Penderfyniad | | Swyddogaeth |
| Gofynnir i chi roi manylion y cynnig a'i brif amcanion | Mae'r Cyngor Sir yn cynnig newid ystod oedran Ysgol y Bynea, yn gyfreithiol, o 4-11 oed i 3-11 oed cyn gynted â phosibl, er mwyn gallu cynnig darpariaeth feithrin. | | | | |

| | Oed | Anabledd | Ailbennu rhywedd | Rhyw | Cyfeiriadedd Rhywiol | Hil - yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu | Crefydd neu gred - yn cynnwys diffyg cred | Y Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydy'r gweithgaredd/cynnig yn berthnasol i'r dyletswyddau cyhoeddus penodol sy'n gysylltiedig â phob llinyn cydraddoldeb? (Ticiwch fel sy'n briodol) | N | N | N | N | N | N | N | N |
| A ddylai'r gweithgaredd / cynnig ddileu camwahaniaethu a dileu aflonyddu yng nghyswllt y canlynol? | N | N | N | N | N | N | N | N |
| A ddylai'r gweithgaredd / cynnig hybu cyfle cyfartal yng nghyswllt y canlynol? | N | N | N | N | N | N | N | N |

**Effaith bosib**

**Beth rydym ni'n ei wybod am EFFAITH GADARNHAOL bosibl y gweithgaredd / cynnig ar y nodweddion canlynol a amddiffynnir?** (Gofynnir i chi ystyried hefyd yr effaith bosibl ar yr Iaith Gymraeg)
Disgrifiwch natur yr effaith yn gryno.

| | |
|---|---|
| Oed | Bydd effaith |
| Anabledd | Ni ragwelir dim effaith |
| Ailbennu rhywedd | Ni ragwelir dim effaith |
| Rhyw | Ni ragwelir dim effaith |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Ni ragwelir dim effaith |
| Hil | Ni ragwelir dim effaith |
| Crefydd neu Gred | Ni ragwelir dim effaith |
| Y Gymraeg | Ni ragwelir dim effaith |

**A allai'r gweithgaredd neu'r cynnig gael effaith ANDWYOL / NEGYDDOL ar y grwpiau canlynol?**
**(Rhowch ragor o wybodaeth, os gwelwch yn dda)**

| | |
|---|---|
| Oed | **Na allai** |
| Anabledd | **Na allai** |
| Ailbennu rhywedd | **Na allai** |
| Rhyw | **Na allai** |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | **Na allai** |
| Hil | **Na allai** |
| Crefydd neu Gred | **Na allai** |
| Y Gymraeg | **Na allai** |

**Pa welliannau y gellid eu gwneud i sicrhau bod yr effeithiau hyn yn derbyn sylw?**

**Ymgynghoriad**

**A ydych wedi ymgynghori ag unrhyw rai o'r grwpiau a amddiffynnir neu'r cyrff sy'n eu cynrychioli? Os ydych, rhowch fanylion. Beth oedd y canlyniad?**

| | |
|---|---|
| Disgrifiad o'r ymgynghori | Cynhaliwyd ymgynghori anffurfiol a ffurfiol ynghylch y cynigion. |
| Canlyniad yr ymgynghori | |

**Gwybodaeth a Monitro**

**Pa wybodaeth arall (e.e. adroddiadau, arolygon, monitro defnyddwyr neu wybodaeth o ffynonellau eraill) sydd gennych sy'n cyfrannu i'ch penderfyniad?**
**Dim**

| **Lleddfu**<br><br>**Os nodwyd bod effaith andwyol, beth gellir ei wneud i leddfu'r effaith honno?** | |
|---|---|
| Gofynnir ichi fanylu ar y camau sydd i'w cymryd i leddfu unrhyw effaith andwyol | **AMH.** |
| Disgrifiwch unrhyw gamau a gymerwyd i fwyafu'r cyfle i sicrhau cymaint o gydraddoldeb â phosibl, h.y. newidiadau i'r gweithgaredd/cynnig, rheoleiddio, canllawiau, cyfathrebu, monitro neu adolygu | **AMH.** |
| A wnaed unrhyw newidiadau i'r gweithgaredd / cynnig o ganlyniad i gynnal yr Asesiad Effaith hwn ar Gydraddoldeb? | **AMH.** |

| **Mae'r ddyletswydd yn gofyn yn benodol bod yr Awdurdod yn rhoi sylw dyledus i ganlyniadau'r Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb. Ar ôl ystyried yr effaith bosibl neu'r union effaith ar y grwpiau a amddiffynnir, beth yw'r cam nesaf ar gyfer y gweithgaredd/cynnig hwn?** | |
|---|---|
| Dim newid mawr (mae eich asesiad yn dangos bod y polisi yn gadarn. Dengys y dystiolaeth nad oes posibilrwydd y bydd camwahaniaethu'n digwydd) | * |
| Addasu'r polisi (byddwch yn cymryd camau i ddileu rhwystrau, i hyrwyddo cydraddoldeb yn well neu i feithrin cysylltiadau da) | |
| Parhau â'r polisi (byddwch yn ei fabwysiadu neu yn parhau ag ef, er gwaethaf y ffaith y gallai gael effaith andwyol. Rhaid i chi nodi cyfiawnhad yn yr achos hwn) | |
| Rhoi stop ar y polisi a'i ddileu (os oes effeithiau andwyol sydd heb eu cyfiawnhau ac na ellir eu lleddfu, dylech ystyried rhoi stop ar y polisi) | |

| **Y cyd-destun**<br><br>**Ydy'r cynnig hwn yn rhan o gynllun ehangach a fyddai'n ei roi yn ei gyd-destun?** | |
|---|---|
| **Manylion cyd-destun y cynnig** | Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif<br>Y Rhaglen Moderneiddio Addysg |

| | |
|---|---|
| **Monitro**<br>**A fyddech cystal ag amlinellu eich cynlluniau ar gyfer monitro'r effaith barhaus ar y grŵp/grwpiau yr effeithir arnynt?**<br>Ni ddynodwyd grwpiau yr effeithir arnynt | |
| **Gwybodaeth arall**<br>**A ddylid cofnodi unrhyw beth arall? AMH.** | |
| | |
| **Dyddiad cwblhau** | **Cyn gynted â phosibl** |
| **Dyddiad adolygu** | **AMH.** |

Diolch ichi am gwblhau'r asesiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch Asesu Effaith, cysylltwch â'r canlynol:
Y Tîm Polisi Corfforaethol
Adran y Prif Weithredwr
01267 22(4914) / (4676)
cydraddoldeb@sirgar.gov.uk

**Ar ôl cwblhau'r asesiad a fyddech cystal â'i anfon i'r cyfeiriad e-bost uchod.**

# 9. Atodiad C - Dechrau'n Deg

## Dechrau'n Deg

Rhaglen a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yw'r gwasanaeth Dechrau'n Deg, ac mae'n darparu gwasanaethau cymorth dwys i blant 0–3 oed a'u teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'n rhaglen wedi'i thargedu sydd ar gael bellach mewn 12 ardal ddaearyddol yn y sir. Yr ardaloedd hyn yw: Y Betws yn ardal Rhydaman; Bigyn, Felin-foel, Y Morfa, Maes-llyn/Copperworks, Dafen, Llwynhendy a'r Bynea yn ardal Llanelli; Carwe, Gorllewin y Pwll /Maengwyn, Trimsaran; Parc Waun-dew a Gogledd Tref Caerfyrddin yn ardal Caerfyrddin. *(Pennir pa ardaloedd sy'n gymwys yn unol â chodau post penodol.)*

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo pedair ardal ychwanegol sef: Pantyffynnon (Rhydaman), Y Garnant, Glanaman, Canol Porth Tywyn a Phen-bre.

Mae gan blant 2-3 oed, sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg, hawl i gael gofal rhan-amser di-dâl am 12.5 awr yr wythnos, sydd gyfwerth â dwy awr a hanner y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener, am 42 wythnos y flwyddyn. Helaethwyd y rhaglen hon yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.

Ar **y plentyn** mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio, ac yn enwedig ar sicrhau bod pob plentyn yn datblygu ei iaith a'i sgiliau cymdeithasol ac yn datblygu'n emosiynol ac yn gorfforol er mwyn bod yn barod i ddechrau yn yr ysgol. Drwy nodi anghenion yn gynnar, mae Dechrau'n Deg yn ceisio gofalu bod gwasanaethau cymorth ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny o fewn y teulu. Gwneir hyn drwy **bedwar** prif faes gwasanaeth.

## 1. Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd a Gwasanaeth Bydwragedd

Darparu gwasanaeth dwys gan Ymwelwyr Iechyd; gan fod 8 swydd Ymwelydd Iechyd wedi cael eu creu yn ddiweddar a bod llai o lwyth gwaith, gall Ymwelwyr Iechyd ymweld â theuluoedd yn amlach a darparu cymorth un-i-un yn y cartref. O adeg geni baban, cynorthwyir aelodau pob teulu sy'n rhan o'r rhaglen Dechrau'n Deg i ddatblygu ac i feithrin perthynas glòs â'u baban, yn enwedig rhoddir cymorth i'r fam o ran ei hiechyd meddwl ac emosiynol, darperir clinigau wythnosol sy'n annog rhieni i dderbyn cyfleoedd i imiwneiddio eu baban, rhoddir cyngor cyffredinol ar iechyd y baban, ar ddiddyfnu, ar greu arferion ac ar batrymau cysgu. Yn ogystal, cynigir cyrsiau ynghylch rhoi 'massage' i fabanod, gan ddysgu'r rhieni sut mae meithrin perthynas glòs a'u baban a pheri ymlyniad a all gysuro a lleddfu anhwylder baban pan fydd yn sâl, yn torri dant ac wrth i'r baban dyfu. Mae'r Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd yn para hyd nes y bydd y plentyn yn 4 oed, pryd y trosglwyddir y gofal am iechyd y plentyn i nyrs yr ysgol pan fydd y plentyn yn dechrau mynychu'r ysgol.

**Gwasanaeth Arbenigol gan Fydwragedd** – i'r teuluoedd mwyaf bregus hynny y mae arnynt angen cymorth ychwanegol i ymdrin ag anghenion dwys a nodwyd, mae gwasanaeth bydwreigiaeth ar gael cyn geni'r plentyn ac mae'n cynnig cyngor ar gadw'n iach yn ystod y beichiogrwydd. Dim ond drwy gael eich cyfeirio ato gan eich Bydwraig Gymunedol y cewch y gwasanaeth hwn.

**Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd** – mae'r gwasanaeth hwn ar gael i deuluoedd a'u plant ar sail un-i-un yn y cartref, lle nodwyd bod plant sydd ar ei hôl hi o ran eu datblygiad neu eu sgiliau iaith. Mae Swyddogion Cymorth Dechrau'n Deg yn darparu rhaglen iaith a lleferydd a gynhelir yn y cartref dros gyfnod o 6 wythnos ac maent yn annog rhieni i ddal ati i wneud y gwaith iaith yn barhaol ar ôl i'r sesiynau ddod i ben.

Ffoniwch 01554 742468 i weld a oes gennych hawl i gael unrhyw un o'r gwasanaethau hyn a ddarperir yn rhad ac am ddim.

## 2. Gofal yn rhad ac am ddim i blant 2–3 oed.

Mae gan blant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg hawl i gael gofal plant rhan-amser yn rhad ac am ddim am ddeuddeg awr a hanner yr wythnos, sef dwy awr a hanner bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, am 42 wythnos y flwyddyn. Mae Dechrau'n Deg wedi prynu lleoedd gofal plant gan y darparwyr canlynol:

- Cylch y Felin, y Betws yn Ysgol Gynradd Gymunedol y Betws
- Canolfan Deulu Sant Paul ym Migyn
- Meithrinfa Ddydd Tŷ'r Myrtwydd ym Migyn
- Cylch Meithrin Carwe yn Ysgol Gynradd Carwe
- Cylch Meithrin Felin-foel, yn y Ganolfan Addysg Gymunedol, Felin-foel
- Grŵp Chwarae Jellitotz, Neuadd Gymunedol Pen-y-Morfa, y Morfa
- Meithrinfa Teddybears yng Nghanolfan Dewi Sant, Llanelli
- Y Ganolfan Blant, Llwynhendy
- Canolfan Deulu Tŷ Ni, Tref Caerfyrddin
- Canolfan Deulu Tŷ Hapus, Ystad Parc y Bryn, Caerfyrddin
- Canolfan Deulu Argel, Tre Ioan

Mae Athro/Athrawes Blynyddoedd Cynnar y rhaglen Dechrau'n Deg yn gweithio gyda phob lleoliad sy'n darparu gofal plant er mwyn datblygu cynlluniau cwricwlwm priodol a gweithgareddau sy'n ysgogi datblygiad plant dwy oed. Mae'r pwyslais ar bennu safonau sy'n creu darpariaeth gofal plant 'o safon' ar draws pob un o'r 11 lleoliad sy'n darparu gofal plant.

Ffoniwch 01554 742468 i weld a oes gennych hawl i gael unrhyw un o'r gwasanaethau hyn sy'n rhad ac am ddim ac er mwyn gweld a oes lleoedd gofal plant ar gael.

## 3. Rhaglenni Rhianta

Mae rhieni sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael cymorth pellach drwy gael y cyfle i fynd i amrywiaeth o raglenni rhianta, sy'n ceisio rhoi iddynt y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fagu plant yn effeithiol. Mae rhai cyrsiau yn benodol ar gyfer rhieni newydd a'u babanod er mwyn annog meithrin perthynas glòs â'r baban a pheri ymlyniad rhyngddynt. Wrth i'r plant dyfu, mae rhaglenni eraill ar gael sy'n meithrin hyder rhieni i ymdrin ag ymddygiad eu plant, yn hyrwyddo rhianta cadarnhaol, yn creu ymagweddau cadarnhaol at feithrin perthynas iach rhwng rhieni â'u plant. Mae'r canlynol ymhlith y cyrsiau a gynigir:

- Rhaglen **'Sut mae dod i adnabod eich baban'** (Webster Stratton) – i rieni newydd sydd â babanod newydd-anedig a phlant hyd at 12 mis oed

- **Sgrinio i Asesu'r Newydd-anedig** – asesiad o'r rhiant a'r plentyn sy'n annog meithrin perthynas y rhiant â'r baban a'u hymlyniad wrth ei gilydd
- '**Rhoi Massage i Fabanod**' – ar gyfer y newydd-anedig a babanod hyd at 12 mis oed
- Rhaglen **'Y Blynyddoedd Rhyfeddol** (Webster Stratton) – i blant 2–3 oed
- **'Ymdrin ag Ymddygiad Plant'** – i blant 2–3 oed.

Ffoniwch 01554 742468 i weld a oes gennych hawl i gael unrhyw un o'r gwasanaethau hyn a ddarperir yn rhad ac am ddim.

## 4. Rhaglenni Sgiliau Sylfaenol

Mae cyrsiau Chwarae ac Iaith (LAP) ar gael i deuluoedd sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac maent yn dangos i rieni sut mae ymwneud â'u plant a chwarae gyda nhw mewn modd cadarnhaol er mwyn hybu ac ysgogi datblygiad iaith eu plant, gan gynnwys cynyddu ystod eu geiriau a'u geirfa. Mae hwn yn gwrs poblogaidd iawn ymysg rhieni gan ei fod yn gwneud iddynt deimlo'n dda sy'n hwb i feithrin perthynas gref ac iach rhwng y rhiant a'r plentyn. Bydd rhieni'n siarad â'u plant, yn chwarae gyda nhw ac yn creu gweithgareddau crefft gyda'u plant gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael a chanu caneuon a rhigymau, y cyfan mewn ymgais i gael y plentyn i 'ddysgu trwy chwarae'. Mae'r cyrsiau Chwarae a Rhifau yr un mor boblogaidd ac yn debyg iawn, gan ddefnyddio geiriau yn gysylltiedig â ffigurau, rhifau a siapiau i hybu datblygiad iaith y plant.

Yn ogystal, mae sesiynau adrodd stori i'w cael yn y llyfrgelloedd lleol ac ar y Bws Stori ac fe'u trefnir bob hyn a hyn drwy gydol y flwyddyn a rhoddir cyhoeddusrwydd iddynt yn lleol.

# 10. Atodiad D - Proffil o'r Ardal

**Bynea** - (Bynea 1 (**SA14 9LT)** mae rhan o'r ardal côd post hon yn ward Bynea 2 (**SA15 4AL**).

Seiliwyd Mynegai Amddifadedd Lluosog 2011 ar ddaearyddiaeth fanwl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI).
Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 wedi'i lunio o wyth parth, sef Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Tai, Mynediad i Wasanaethau, Amgylchedd Ffisegol a Diogelwch Cymunedol, ac fe'i cyhoeddir ar lefel ACEHI, y ceir 112 ohonynt yn Sir Gaerfyrddin.
O dan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, lle mae Safle 1 yn cynrychioli'r mwyaf difreintiedig, mae Bynea 1 yn safle 56 o blith y 112 ACEHI yn Sir Gaerfyrddin. O blith y 112 o ACEHI yn Sir Gaerfyrddin, mae Bynea 2 yn safle 17.

| ACEHI | MALIC Cyffredinol 112 | Cyflogaeth Sir Gaerfyrddin 112 | Incwm Sir Gaerfyrddin 112 | Iechyd Sir Gaerfyrddin 112 | Addysg Sir Gaerfyrddin 112 | Tai Sir Gaerfyrddin 112 | Amgylchedd Ffisegol Sir Gaerfyrddin 112 | Mynediad i Wasan-aethau 112 | Diogelwch Cymunedol Sir Gaer-fyrddin 112 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bynea 1 | 56 | 68 | 90 | 43 | 67 | 5 | 4 | 56 | 72 |
| Bynea 2 | 17 | 16 | 17 | 27 | 14 | 66 | 67 | 67 | 54 |

### Proffil Ardal o'r Côd Post: SA14 9LT: (Bynea 1 Côd ACEHI: W10000635)

| | |
|---|---|
| Poblogaeth: | 2,265 |
| Y Gymraeg: | Pobl sydd â gwybodaeth am y Gymraeg: 46.9%<br>Sy'n gallu siarad Cymraeg: 30.8%<br>Sy'n gallu siarad, darllen, ac ysgrifennu yn Gymraeg: 22.0%<br>Sy'n gallu siarad Cymraeg (3-15 oed):7.0%<br>Dim sgiliau yn y Gymraeg: 53% |
| Nifer y plant a'r bobl ifanc: | 19.2% (0-15 oed)<br>9.6% (16-24 oed) |
| Lleddfu'r Boblogaeth: | **Symudiadau poblogaeth cyffredinol yn yr ardal: cyfradd y 1,000 Nid oes data ar gael bellach** |
| Ethnigrwydd: | Gwyn (Prydeinig): 95.9%<br>Gwyn (Gwyddelig): 0.4%<br>Gwyn (Arall): 2.2%<br>Cymysg (Gwyn a Du Caribïaidd): 0.0%<br>Asiaidd Prydeinig (Indiaidd) 0.3%<br>Asiaidd Prydeinig (Asiaidd arall): 0.5%<br>Grŵp Ethnig Arall: 0.4% |
| Crefydd: | Cristion: 60.0%<br>Bwdhydd: 0.2%<br>Hindŵ: 0.1%<br>Iddew: 0.0%<br>Mwslim: 0.3%<br>Sikh: 0.0%<br>Crefydd Arall: 0.4%<br>Dim Crefydd: 31.4%<br>Crefydd heb ei nodi: 7.5% |
| Gradd Amddifadedd: | Cyfanswm yr aelwydydd: 916<br>Cyfanswm yr aelwydydd nad ydynt wedi'u hamddifadu mewn unrhyw ddimensiynau: 483<br>Nifer yr aelwydydd sydd wedi'u hamddifadu mewn 1-4 o ddimensiynau: 433 |

## Proffil Ardal o'r Côd Post: SA15 4AL: (Hengoed 2 Côd AECHI: W10001925)

| | |
|---|---|
| Poblogaeth: | 2,333 |
| Y Gymraeg: | Pobl sydd â gwybodaeth am y Gymraeg: 49.7%<br>Sy'n gallu siarad Cymraeg: 32.9%<br>Sy'n gallu siarad, darllen, ac ysgrifennu yn Gymraeg: 24.9%<br>Sy'n gallu siarad Cymraeg (3-15 oed): 6.5%<br>Dim sgiliau yn y Gymraeg: 50.4% |
| Nifer y plant a'r bobl ifanc: | 17.3% (0-15 oed)<br>9.9% (16-24 oed) |
| Lleddfu'r Boblogaeth: | **Symudiadau poblogaeth cyffredinol yn yr ardal: cyfradd y 1,000 Nid oes data ar gael bellach** |
| Ethnigrwydd: | Gwyn (Prydeinig): 96.0%<br>Gwyn (Gwyddelig): 0.1%<br>Gwyn (Arall): 1.8%<br>Cymysg (Gwyn a Du Caribïaidd): 0.2%<br>Asiaidd Prydeinig (Indiaidd) 0.4%<br>Asiaidd Prydeinig (Asiaidd arall): 1.0%<br>Grŵp Ethnig Arall: 0.5% |
| Crefydd: | Cristion: 63.4%<br>Bwdhydd: 0.3%<br>Hindŵ: 0.3%<br>Iddew: 0.2%<br>Mwslim: 0.1%<br>Sikh: 0.0%<br>Crefydd Arall: 0.5%<br>Dim Crefydd: 26.3%<br>Crefydd heb ei nodi: 8.9% |
| Gradd Amddifadedd: | Cyfanswm yr aelwydydd: 980<br>Cyfanswm yr aelwydydd nad ydynt wedi'u hamddifadu mewn unrhyw ddimensiynau: 399<br>Nifer yr aelwydydd sydd wedi'u hamddifadu mewn 1-4 o ddimensiynau: 581 |

# 11. Atodiad E – Profforma Ymateb

Rhowch eich sylwadau, os gwelwch yn dda, ar y cynigion ynghylch y ddarpariaeth yn y dyfodol ar gyfer plant cynradd sy'n byw yn nalgylch Ysgol Y Bynea.

Eich sylwadau:

| |
|---|
| |

A oes unrhyw faterion eraill y dymunwch dynnu ein sylw atynt?

| |
|---|
| |

☐ Ticiwch y blwch os ydych yn dymuno cael gwybod am gyhoeddiad adroddiad ymgynghori.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | ______________ | Printiwch yr Enw | ______________ |
| Cyfeiriad | ______________ | Swydd/Categori yr ymatebydd: (e.e. rhiant) | ______________ |
| | ______________ | Côd post | ______________ |
| | ______________ | | |
| Dyddiad | ______________ | | |

**Sylwer: bydd modd i'r cyhoedd weld eich sylwadau fel rhan o gofnodion ffurfiol y broses ymgynghori, os na nodwch yn wahanol.**

A wnewch chi ddatgysylltu'r ffurflen hon a'i dychwelyd i'r: Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3HB neu gellir anfon neges e-bost at aaprma@sirgar.gov.uk erbyn 29ain Ionawr 2016 fan hwyraf.